

Gwella Coridor yr M4
Tîm Ymgysylltu
**M4 (Magwyr i Gas-bach) –
Mesurau Gwella'r Coridor**
Adroddiad Cryno'r
Gweithdy Rhanddeiliaid Strategol

Drafft 1 | Ebrill 2011



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ARUP

Cynnwys

	Tudalen
1	Crynodeb Gweithredol 1
2	Cyflwyniad 1
3	Diben y gweithdy 2
4	Sut aethpwyd ati i gasglu barnau cyfranogwyr 2
5	Barn cyfranogwyr am y gweithdy 3
6	Problemau trafnidiaeth 3
6.1	Sylwadau ar restr problemau Llywodraeth Cynulliad Cymru 3
6.2	Problemau newydd 5
7	Cyrchnodau trafnidiaeth 5
7.1	Sylwadau ar restr cyrchnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru 5
7.2	Cyrchnodau newydd 6
8	Nodau cyffredinol 7
8.1	Sylwadau ar nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru 7
8.2	Nodau newydd 7
8.3	Nodau newydd y tu hwnt i 2020 8
9	Negeseuon i Lywodraeth Cynulliad Cymru 8

Atodiadau

Atodiad A

Rhestr Cyfranogwyr

Atodiad B

Ffocws ystyriaethau cyfranogwyr – Problemau, Cyrchnodau a Nodau diffiniedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4: Magwyr i Gas-bach

Atodiad C

Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

1 Crynodeb Gweithredol

Roedd y gweithdy hwn yn un o nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddechrau 2011. Roedd y cyfranogwyr yn gymysgedd o randdeiliaid strategol (o ymgynghoreion statudol, fel Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Cefn Gwlad Cymru, i Gyrrff Anllywodraethol mawr, cyrff trafndiaeth, a grwpiau busnes) sydd â buddiant yng Nghoridor yr M4: Magwyr i Gas-bach. Diben y gweithdy oedd rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, i geisio'u barnau am ddadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o broblemau, cyrchnodau a nodau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth hyd at 2020 ar y coridor, yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau ar gyfer problemau, cyrchnodau neu nodau ychwanegol.

Yn gyffredinol, nid oedd y cyfranogwyr yn anghytuno'n sylfaenol â'r rhestr o broblemau, cyrchnodau a nodau a roddwyd gerbron gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ychwanegwyd cryn nifer o sylwadau atynt, a chynigiwyd nifer o ychwanegiadau.

Un thema a ddaeth i'r golwg yn gadarn oedd 'cydgysylltu' gwell. Ysgrifennodd cyfranogwyr am yr angen am drafndiaeth integredig, polisiau cydgysylltiedig ar draws disgyblaethau gwahanol, a chyfathrebu gwell o fewn asiantaethau teithio a rhyngddynt.

Nodwyd dulliau trafndiaeth amgen cynaliadwy ym mhob un o'r trafodaethau, ac roedd galwadau am gynnwys mesurau 'meddal' mewn modd sylweddol.

Ar bwynt ehangach, nid oedd y cyfranogwyr yn gytun ynghylch ai lleihau teithio ddylai'r nod cyffredinol fod, neu a ddylid canfod ffyrdd o reoli lefelau traffig presennol a / neu berswadio pobl i deithio'n fwy cynaliadwy.

Thema arall a oedd i'w gweld mewn llawer o'r sylwadau oedd yr angen i wahaniaethu rhwng anghenion ac effeithiau lleol ac ehangach (rhanbarthol neu genedlaethol). Roedd hyn mewn perthynas â rôl yr M4 fel llwybr strategol neu lwybr strategol a lleol cymysg, ond hefyd, er enghraifft, mewn perthynas â chanlyniadau anfwriadol posibl yn sgil gwella mynediad at wasanaethau is-ranbarthol ar draul gwasanaethau lleol.

2 Cyflwyniad

Ar ddechrau 2011, fel rhan o raglen ymgysylltu Mesurau Gwella Coridor yr M4, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdy i randdeiliaid strategol (cyrff anweithredol mawr, cyrff trafndiaeth, grwpiau busnes) â buddiant yng nghoridor trafndiaeth yr M4 Magwyr i Gas-bach. Roedd y gweithdy'n un o nifer o ddigwyddiadau; gellir cael mwy o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau deialog a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2011, ac am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn <http://wales.gov.uk/topics/transport/roads/schemes/ewsouth/m4mctcip/?lang=en> .

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad cryno o'r gweithdy – gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r taflenni gwaith a'r siartiau troi a gynhyrchwyd yn y gweithdy ar y wefan uchod hefyd.

Hwyluswyd cynllun y gweithdy gan yr arbenigwyr ymgysylltu annibynnol Catrin Ellis Associates.

3 Diben y gweithdy

Diben y gweithdy oedd rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ac i geisio'u barnau am ddadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o broblemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a'r cyrchnodau sydd i'w cyflawni er mwyn mynd i'r afael ag un neu fwy o broblemau. Ar ôl edrych ar y problemau a'r cyrchnodau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd ystyried y darlun mwy, drwy ystyried nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 hyd at 2020, a thu hwnt.

Yn ogystal â gofyn i gyfranogwyr pam y byddent yn cytuno neu'n anghytuno, neu eisiau newid problem, cyrchnod neu nod penodol, gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer problemau, cyrchnodau neu nodau ychwanegol.

Yn y cyfnod cynnar hwn yn y broses o siarad â phobl a rhanddeiliaid, a gwranddo arnynt, bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw deall unrhyw wahaniaethau barn neu bwyslais ynglŷn â'r problemau sydd i'w datrys, a chan hynny llunio cwmpas Rhaglen Wella Coridor yr M4, drwy osod nodau a chyrchnodau priodol. Felly, esboniwyd i gyfranogwyr nad oeddent yn gofyn iddynt, ar hyn o bryd, am awgrymiadau ar gyfer atebion i'r problemau trafnidiaeth. Byddai cyfle i wneud hynny yn digwydd nes ymlaen yn y flwyddyn. Fodd bynnag, cynigiwyd cryn nifer o atebion; maent wedi'u nodi a byddant yn cyfrannu at gyfnod nesaf y gwaith.

4 Sut aethpwyd ati i gasglu barnau cyfranogwyr

Rhoddwyd y cyfranogwyr i eistedd wrth naw o fyrddau o rhwng pedwar a chwech o bobl, a gyda'i gilydd roeddent yn cynrychioli ystod o farnau a safbwyntiau. Y gobaith oedd y byddai'r ystyriaethau wrth bob bwrdd yn ysgogi syniadau sy'n ystyried ystod eang o brofiadau a materion, ac felly byddai'r adborth a gasglwyd yn rhoi dealltwriaeth gyfannol o farnau rhanddeiliaid.

Er mwyn helpu ffocws y grwpiau, aethant ati i ddefnyddio taflenni gwaith a oedd yn eu tywys drwy farn Llywodraeth Cynulliad Cymru am y problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn ardal y coridor, y cyrchnodau i'w cyflawni a nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

Anogwyd y grwpiau i roi sylwadau ar y problemau, y cyrchnodau neu'r nodau hynny yr oeddent yn eu hystyried yn fwyaf perthnasol, neu'r rhai pwysicaf neu'r rhai â mwyaf o frys yn eu barn hwy. Felly, ni wnaeth pob un o'r grwpiau gynnig sylwadau ar yr holl bwyntiau a gyflwynwyd.

Amcan y gweithdy oedd casglu barnau a gwybodaeth yn deillio o ystod eang o safbwyntiau Llywodraeth Leol, a dechrau deall gwahaniaethau barn neu bwyslais o gymharu â'r deunydd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad.

Gofynnwyd i'r grwpiau cyn belled ag y bo modd i lunio barn ar y cyd. Fodd bynnag, os oedd barnau amgen cryf mewn unrhyw grŵp, fe'u hanogwyd i adrodd

yn ôl ar fwy nag un farn ar unrhyw broblem, cyrchnod neu nod penodol. Roedd cyfle hefyd yng nghwestiwn olaf ffurflen werthuso'r gweithdy, i gyfranogwyr fynegi barnau unigol, ac anfon neges i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â sut y dylid dwyn Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn eu blaen.

5 Barn cyfranogwyr am y gweithdy

Llenwyd ffurflen werthuso gan y cyfranogwyr, gan ddweud wrthym beth oedd eu barn am y gweithdy, a'r deunyddiau gwybodaeth, a oedd yn disgrifio ac yn rhoi tystiolaeth i gefnogi'r arfarniad a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â phroblemau, cyrchnodau a nodau, a anfonwyd cyn y gweithdy.

Roedd yr holl gyfranogwyr a ymatebodd o'r farn fod y deunydd gwybodaeth yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

Rhoddodd 20 o 33 o gyfranogwyr a atebodd sgôr gyffredinol o 7/10 neu uwch i'r gweithdy, a dywedodd 20 o 33 ei fod wedi cyflawni'i nodau'n llawn; dywedodd 11 mai ond yn rhannol y llwyddodd i gyflawni'i nodau. Dywedodd un cyfranogwr nad oedd y gweithdy wedi cyflawni'i nodau o gwbl. Teimlai rhai cyfranogwyr mai'r hyn a oedd ar goll yn y gweithdy oedd cyfle i ystyried atebion, a manylion ynglŷn â beth fydd Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn ei wneud, yn ogystal â data meintiol. Mynegodd rhai rwystredigaeth ynghylch diffyg cyfle i drafod atebion. Dywedodd 24 o 35 o ymatebion eu bod wedi'i chael hi'n hawdd neu'n hawdd iawn mynegi'u barn (sgorau $\geq 7/10$). Roedd y rhesymau a roddwyd dros fod rhai cyfranogwyr wedi'i chael hi'n llai na hawdd yn cynnwys y ffaith fod y grŵp cyffredinol mor fawr, a natur "amllwg" y deunyddiau oedd yn cael eu trafod.

Fe wnaeth cwestiwn olaf y ffurflen adborth, a oedd yn gwahodd cyfranogwyr i roi neges unigol i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, ysgogi ystod eang iawn o sylwadau. Atgynhyrchir y rhain yn llawn yn adran 9.

6 Problemau trafndiaeth

6.1 Sylwadau ar restr problemau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn cytuno â llawer iawn yn nadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif problemau trafndiaeth yn y coridor, ond roedd nifer o broblemau yr oedd gwahaniaethau barn yn eu cylch.

- Roedd cytundeb cyffredinol bod y tarfu a achosir gan ddigwyddiadau unigol fel damweiniau neu dywydd difrifol (Problemau 1, 9, 14) yn broblem fawr a'i bod yn cael effeithiau canlyniadol ar ffyrdd lleol. Gwelwyd bod hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg llwybrau amgen addas. Teimlwyd bod lle i wella o ran y modd caiff unrhyw darfu ei reoli, fel gwell gwybodaeth i yrwyr, yn cael ei gyflwyno'n amserol. Nododd un grŵp fod traffig trwm yn sgil digwyddiad mawr yn achosi tarfu hefyd. Nid oedd rhai pobl yn meddwl fod llifogydd yn broblem.

- Fe wnaeth 4 o'r 9 grŵp a gynigiodd sylwadau ar y datganiad ynghylch lefelau traffig cynyddol (Problem 3) fynegi amheuaeth ynglŷn ag a yw hyn yn wir mewn gwirionedd. Roedd y grwpiau'n cwestiynu a yw'r rhagolygon sy'n cael eu defnyddio i nodi hyn fel problem yn ddibynadwy, a soniwyd am ddarlun cymhleth o bwysau sy'n codi a gostwng.
- Roedd 5 o'r 7 o grwpiau a gynigiodd sylwadau yn cytuno fod y rhwydwaith trafnidiaeth presennol yn cyfyngu ar dwf economaidd (Problem 4). O'r ddau grŵp a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn, soniodd un am gysylltedd â marchnadoedd a chostau llafur fel cyfyngiadau mwy ar dwf economaidd.
- Roedd Problem 5 yn datgan y bydd gwaith cynnal a chadw mawr hanfodol ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf yn cynyddu problemau tagfeydd. Ymddengys bod dealltwriaeth gyffredinol ymhlith cyfranogwyr fod angen gwaith cynnal a chadw ar bob ffordd, ac er mwyn lleihau tarfu, dylid mynd ati ar y cyd i gynllunio rhaglenni seilwaith mawr, ac ystyried dewisiadau amgen. Dywedodd dau grŵp mai dyluniad gwreiddiol yr M4 (diffyg lled llawn a llain galed barhaus) yw'r broblem go iawn yma.
- Roedd Problem 6 yn ymwneud ag anallu cerbydau nwyddau trwm i ymdopi'n dda â thagfeydd, ac ni theimlwyd ei fod yn broblem benodol ar y rhan hon o'r M4.
- Mewn perthynas â lefelau llygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr (Problemau 7 ac 8) dywedodd y rhan fwyaf o'r grwpiau a gynigiodd sylwadau eu bod yn cytuno bod y ddau yn broblemau mawr. Roedd y cyfranogwyr yn cwestiynu a oedd y ffactorau mwyaf dylanwadol o ran achosi'r problemau hyn wedi'u hadnabod yn iawn, ac awgrymwyd bod traffig ar ffyrdd ymyl a ffyrdd bwydo yn cyfrannu at y problemau hyn hefyd.
- Nid oedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod sŵn traffig o'r M4 yn broblem i drigolion lleol (Problem 10), a dywedodd un grŵp fod darpariaeth dda o ran rhwystrau sŵn. Fodd bynnag, roedd grwpiau eraill yn gweld hyn yn broblem.
- Roedd nifer o'r grwpiau'n teimlo fod angen eglurhad ynglŷn â'r cwestiwn "porth i mewn i Gymru" (Problem 11). Gofynnodd rhai, er enghraifft, ble mae'r porth – ar y ffin neu yng Nghymru ei hun? A yw'n borth i Gymru, De Cymru neu Gaerdydd? Dywedodd un grŵp nad y ffordd yn unig oedd y porth, ond y lleoliad hefyd.
- Roedd 5 o 7 o grwpiau a gynigiodd sylwadau ar a yw'r systemau trafnidiaeth yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd (Problem 12), yn cytuno'n fras â'r datganiad. Fe wnaeth pob un o'r saith ddehongli'r datganiad mewn nifer o ffyrdd gwahanol.
- Credai nifer o grwpiau fod cyfraddau damweiniau wedi gwella'n sylweddol (Problem 13) ers cyflwyno'r cyfyngiad 50mya, ac roedd un grŵp yn meddwl tybed a oedd yn dal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Dywedodd yr holl grwpiau a gynigiodd sylwadau y gall problemau achlysurol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach darfu'n ddifrifol ar deithio ar y ffordd yn ardal ehangach De Cymru.

6.2 Problemau newydd

Gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried a oedd unrhyw broblemau sylweddol nad oeddent wedi cael sylw eto yn nadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru; cynigiwyd nifer ohonynt:

- Cynigiwyd y cymysgedd o draffig teithio hir a thraffig lleol fel problem newydd gan un grŵp.
- Roedd 8 o'r 22 o broblemau newydd yn ymwneud â diffyg amlwg dulliau teithio amgen digonol / cynaliadwy. Roedd pryder nad oedd dewisiadau trafndiaeth yn cael eu hintegreiddio yn gysylltiedig â hyn.
- Dywedodd un grŵp fod y meddwl seilo yn y Cynulliad yn arwain at ddatgysylltiad rhwng polisi trafndiaeth a phrosiectau mawr.
- Problemau newydd y soniwyd amdanynt oedd cael gwared ar lygredd hylif (e.e. gollwng tanwydd), arwyddion gwybodaeth hen yn dilyn damwain, dibynadwyedd amser siwrneiau gwael a'r gost i fusnes os caiff yr M4 ei chau.
- Cynigiwyd rhai problemau ffisegol penodol:
 - Amrywio yn nifer y lonydd sydd ar gael ar yr M4 h.y. nid oes 3 lôn y gyson
 - Cyffordd 28 (soniwyd am ddwy broblem wahanol)
 - Gormod o gyffyrdd

7 Cyrchnodau trafndiaeth

7.1 Sylwadau ar restr cyrchnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Roedd cytundeb cyffredinol â'r rhan fwyaf o gyrchnodau trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y coridor.

- Cyrchnod 1 oedd 'ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru'. Roedd un grŵp eisiau ychwanegu 'mwy diogel', ac roedd dau grŵp o'r farn fod dibynadwyedd yn bwysicach na chyflymder. Roedd awgrym hefyd fod traffig cyflymach yn creu mwy o sŵn, a byddai hynny wedi yn gwrth-ddweud Cyrchnod 10. Roedd un grŵp yn cysylltu Cyrchnod 1 â Chyrchnod 8 ar ddiogelwch, a Chyrchnod 12 a oedd yn ymwneud â gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru. Awgrymodd grŵp arall y dylai bioamrywiaeth gael ei ychwanegu at Gyrchnod 12, a dywedodd dau grŵp fod angen diffinio'r cyrchnod hwn yn gliriach.
- Cyrchnod 3 oedd 'hyrwyddo dewisiadau amgen mwy effeithiol i'r M4', a chafodd y cyrchnod hwn gefnogaeth gref. Cysylltwyd hwn â Chyrchnod 6 ar fwy o ddewisiadau teithio, ac roedd cefnogaeth i hyn ac eithrio gan un grŵp a ddywedodd y dylid cynyddu cymhellion, er mwyn gwneud dewisiadau teithio presennol yn fwy deniadol.
- Cafodd Cyrchnod 7 ar fynediad i wasanaethau allweddol rywfaint o gefnogaeth, a hefyd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r darlun ehangach.

Nododd un grŵp fod polisïau eraill, fel iechyd ac addysg, yn effeithio ar y galw am drafnidiaeth, a galwodd grŵp arall am feddwl mwy cydgysylltiedig, a gwnaed cysylltiadau â chynllun gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol. Atseiniwyd hyn mewn ymateb i Gyrcnod 9 (gweler isod).

- Nid anghytunodd neb â nodau Cyrchnodau 9 ac 11 i wella ansawdd yr aer a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond gwnaed y pwynt fod symud ceir o un lle i le arall ond yn dadleoli'r broblem. Awgrymwyd targed a oedd yn integreiddio gydag iechyd amgylcheddol, y Cynllun Datblygu Lleol ac eraill.
- Roedd cymysgedd o farnau ynglŷn â Chyrchnod 4 ar wneud 'y defnydd gorau posibl' o'r M4 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Roedd un grŵp yn meddwl tybed a oedd hyn eisoes wedi'i gyflawni, a dywedodd y dylid ystyried llwybrau amgen yn awr, a chredai grŵp arall nad oedd y ddau yn gydnaws â'i gilydd h.y. os yw'r M4 yn llifo'n dda, yna bydd ffyrdd lleol yn orlawn. Ym marn un grŵp, mae topograffeg cymoedd yn golygu bod yr M4 yn hanfodol ar gyfer symud yn lleol a symud yn strategol.
- Nodwyd yr angen i ddatrys gwrthdaro rhwng teithio lleol / teithio pell gan un grŵp.
- Gwnaeth un grŵp bwynt ehangach ynglŷn â'r holl gyrchnodau, gan ddweud eu bod i weld yn hwyluso mwy o deithio yn hytrach nag ystyried a fyddai buddsoddi'n gallu lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn car.

7.2 Cyrchnodau newydd

Cynigiwyd 12 o gyrchnodau newydd.

- Roedd dau gyrchnod newydd yn ymwneud â lleihau'r angen i deithio, ac roedd tri'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus well.
- Roedd un gyrchnod i greu system drafnidiaeth integredig, ac un arall i gyfathrebu'n well o fewn sefydliadau teithio a rhyngddynt.
- Roedd dau gyrchnod newydd yn cefnogi twf economaidd, ac un gyrchnod oedd hyrwyddo Cymru well.
- Codwyd mater cynnal a chadw ffyrdd gan gyrchnod newydd, sef i'r gwaith hwnnw achosi llai o darfu ar yr M4, a bod y profiad teithio i gael ei wella gan fwy o fioamrywiaeth.
- Yn y sesiwn adborth, awgrymwyd na ddylai unrhyw fesur effeithio'n niweidiol ar yr ardal o gwmpas, ac y dylai atebion fod ar gyfer y coridor cyfan.

8 Nodau cyffredinol

8.1 Sylwadau ar nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru

8.1.1 Nod 1: Cymdeithasol

Roedd Nod 1 yn ymwneud â hygyrchedd at wasanaethau. Nid oedd unrhyw anghytuno â'r nod fel y cyfryw, ond teimlai un grŵp ei fod ond yn gymwys i ddefnyddwyr ffordd lleol, ac awgrymodd grŵp arall fod risg y gallai gwella cysylltiadau â chanolfannau economaidd a chymdeithasol mawr gael effaith niweidiol ar wasanaethau lleol.

8.1.2 Nod 2: Economaidd

Ni wnaeth unrhyw un anghytuno â'r nod economaidd hwn i gefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru. Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at ffyniant 'cynaliadwy' neu 'hir dymor', a chodwyd ystyriaeth ynghylch taro cydbwysedd rhwng teithio lleol a theithio strategol.

Yn ôl un grŵp, cyflawni'r nod economaidd ddylai'r flaenoriaeth gyntaf fod.

8.1.3 Nod 3: Amgylcheddol

Eto, nid oedd unrhyw anghytuno â'r nod hwn. Roedd awgrym y dylai'r cynllun cyfan fod yn destun dadansoddiad cylch bywyd llawn. Dywedodd un grŵp y dylid ailwampio'r nod gan ddefnyddio iaith gadarnhaol fel 'gwella ansawdd yr aer', a datganiad y byddai'r cynllun yn gwneud 'cyfraniad cadarnhaol at gyrchnodau cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a mynd i'r afael â chyfraniad trafndiaeth at y newid yn yr hinsawdd'.

8.2 Nodau newydd

Roedd dau o'r saith nod newydd yn ymwneud â gwella diogelwch, ac roedd un arall yn ymwneud ag effaith damweiniau ar fywydau pobl, a bod yr effaith honno'n fwy o lawer na'r effaith economaidd.

Roedd y nodau newydd eraill yn ymwneud â:

- Gwahanu gofynion economaidd lleol a chenedlaethol
- Gwahanu teithio lleol a theithio pell
- Sicrhau cysylltiad ag ail-fasnachfaint rhwydwaith rheilffordd Cymru erbyn 2018
- Rhoi 3 lôn yn y twneli

8.3 Nodau newydd y tu hwnt i 2020

Cynigiwyd pedwar nod newydd ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2020. Nod 'gwneud dim' oedd un ohonynt - caniatáu i dagfeydd a phrisiau uchel olew ddigwydd - byddai pobl yn ad-drefnu eu bywydau o amgylch y rheiny.

Roedd grŵp arall eisiau symud i system drafnidiaeth fwy cynaliadwy nad oedd yn dibynnu ar olew a llygredd.

Un nod awgrymedig oedd ystyried ffyrdd amgen o ariannu gwelliannau trafnidiaeth, fel prisio ffyrdd, tra bod un grŵp wedi cynnig y dylai mesurau geisio lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol, fel mynediad mwy cyfartal i wasanaethau.

9 Negeseuon i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Llenwodd cyfranogwyr y gweithdy ffurflenni adborth, a oedd yn cynnwys cyfle i anfon neges i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt fwrw ymlaen â Mesurau Gwella Coridor yr M4. Atgynhychir y negeseuon isod, ond maent wedi'u grwpio yn ôl themâu.

Integreiddio a chydgyssylltu

- Mae angen integreiddio deilliannau er mwyn cyflawni uchelgeisiau datblygu cynaliadwy, lles ac amgylcheddol go iawn. Mae angen mynd ar drywydd y rhain mewn modd manteisgar.
- Edrych ar y mater ehangach ac integreiddio syniadau.
- Meddwl am y darlun mwy gan y gallai "coridor yr M4" fod yn ardal rhy gul i'w hystyried. Dewisiadau rhanbarthol a allai "symud" y broblem i rywle arall i gychwyn, ac yna (gadael i eraill?) ddelio â'r materion hyn. Edrych at lwybrau cyfochrog eraill, ystyried ail-lwybro traffig yn weithredol.
- Tynnu meysydd polisi eraill y Cynulliad i mewn er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol at gyrchnodau ac atebion – cynllunio, cymdeithasol, iechyd ac ati.
- Sicrhau meddwl integredig am yr holl ddulliau. Rwy'n dal i ddarllen adroddiadau sy'n gwrthdaro: yn enwedig priffyrdd a rheilffyrdd. Rwy'n siŵr y gellir gwneud hyn.
- Meddwl am y darlun mawr. Mae gennym gyfle i wella'r problemau trafnidiaeth logistaidd i'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru!
- Siarad â chydweithwyr mewn adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bod yn ymwybodol o dargedau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru (ansawdd yr aer, cynaliadwyedd ac ati) a'r modd y gall y cynllun hwn gyfrannu at dargedau SMART Cynllun Gofodol Cymru. Croesawu ymagwedd newydd.
- Edrych ar y darlun mawr. Yr effaith ar Gymru, ac yn benodol De Ddwyrain Cymru, gan gynnwys y dyffryn
- Rhaid cydnabod y cysylltiad clir rhwng seilwaith ac economi Cymru. Mae angen dod o hyd i ateb i'r problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Peidio â gadael etifeddiaeth o seگردod. Mae'r M4 yn rhan hanfodol o'r seilwaith

Dulliau trafnidiaeth eraill / mesurau meddal

- Sicrhau bod atebion yn hyfyw yn economaidd a bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i atebion i gynorthwyo trafnidiaeth gyhoeddus (ar y ffordd a'r rheilffordd) a gwella diogelwch.
- Nid yr M4 yn unig sydd dan sylw, yn hytrach mae'n golygu edrych ar y modd y caiff yr holl ddulliau teithio eu defnyddio'n well er mwyn lleihau'r effaith. Mae'r polisi cynllunio yn rhan allweddol hefyd.
- Mwy o bwyslais ar fesurau "meddal" Smart.
- Atebion cynaliadwy – edrych ar yr holl faterion fel mesurau 'meddal' – cynlluniau teithio personol a chynlluniau teithio ysgolion, ymwybyddiaeth o deithio – rheilffordd, trenau. Atebion gwyrdd a bioamrywiaeth – gwneud y coridorau ffyrdd/rheilffyrdd yn fwy dymunol ar gyfer gyrru – cloddiau blodau gwyllt, coed collddail brodorol, bywyd gwyllt/pyllau systemau draenio cynaliadwy. Osgoi effaith ar yr amgylchedd naturiol (llygredd yn Afon Wysg, SoDdGA, ACA)
- Meddwl mwy am ddewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus
- Dylai buddsoddiad mewn trafnidiaeth gael ei benderfynu cyn bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i ddulliau teithio. Mae dadansoddiad o gost a budd yn dangos mai cynlluniau cerdded a beicio sy'n rhoi'r gwerth uchaf am arian, ymddengys fod buddion mawr i gynlluniau ffordd am eu bod yn costio gymaint a'u bod yn cael eu prasio dros 60 mlynedd, lle caiff bob eiliad ei phrisio'n gyfartal ac yn unigol.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

- Mae'n rhaid i ymgysylltiad â rhanddeiliaid barhau, ond rhaid ei ehangu i gynnwys y cyhoedd, ac nid y rheiny ohonom sy'n gysylltiedig yn broffesiynol â thrafnidiaeth yn unig.
- Yn ail, cryfhau'r ymgysylltiad â Chynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru SEWTA.
- Mae angen trefnu bod mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am yr hyn sy'n digwydd â choridor yr M4.
- Parhau i wrando.
- Ymgynghori = da. Cynnwys pob un o'ch adrannau, yn enwedig y timau trafnidiaeth a chynaliadwyedd integredig. Nid oedd hwn yn gymysgedd amrywiol iawn o bobl. A oedd yn gynrychioliadol o ddemograffeg De Ddwyrain Cymru?
- Angen ei ddiffinio'n well e.e. crwydrodd trafodaethau rhwng materion yn ymwneud â'r M4 yn benodol a materion trafnidiaeth integredig ehangach. Gallai'r cyrchnodau i gyd fod wedi'u cysylltu yn 1. Geiriwyd y problemau'n wael, a gellid gwaethygu rhai ohonynt. Dim digon o gydnabyddiaeth o'r rhwydwaith ffyrdd bwydo ac anallu asiantaethau i gyfathrebu a chynllunio.

Arall

- Ystyried loriau mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer economi De Cymru

- Mae strwythur ffyrdd ymadael y draffordd ar y cyd â chyfyngiad cyflymder llai wedi arwain at gerbydau nwyddau trwm yn defnyddio'r lôn ganol am bellteroedd sylweddol (ac nid y lôn chwith). Mae symud rhwng lonydd yn fwy anodd/peryglus. Mae goleuadau traffig ar gylchfannau yn achosi mwy o broblemau weithiau nag y maent yn eu datrys (e.e. Cyffordd 28).
- Gwneud dim! Bydd pobl yn addasu i'r tagfeydd traffig presennol a phrinderau olew yn y dyfodol
- Rhaid i unrhyw gynlluniau fod yn gynaliadwy a rhaid sicrhau eu dyfodol fel nad ydynt yn dyddio cyn eu cwblhau
- Ni fydd y broblem tagfeydd ar yr M4 yn mynd i ffwrdd tan y byddwch yn:-
 - Delio â dileu'r broblem 3 i 2 i 3 lôn yn nhwneli Brynglas NEU
 - Cyflwyno traffordd amgen yn ardal Casnewydd!!!
- Rwy'n gweithio mewn busnes gerllaw Cyffordd 28 ac mae sion ar led fod Cyffordd 27 i'w chau. Mae hyn yn destun pryder. Ar adegau prysur, mae maint y traffig sy'n teithio i lawr y cwm drwy Risga ac ati yn golygu bod Cyffordd 27 a Chyffordd 28 wedi'u llenwi hyd yr eithaf a bod tagfeydd trwm yno. Byddai cau Cyffordd 27 yn golygu y byddai Cyffordd 28/Forge Lane ond yn cael eu trosglwyddo o Gyffordd 27. Mae angen i raglen y ddinas gyfan ystyried defnyddwyr busnesau lleol ac nid teithwyr o ardaloedd pellach i ffwrdd yn unig. Plis, plis gwnewch rywbeth yn fuan ynghylch y goleuadau traffig ar gylchfan Cyffordd 28. Mae'r dilyniant newydd yn achosi gymaint o dagfeydd i draffig sy'n gadael Casnewydd – bydd damwain ddifrifol yn digwydd cyn bo hir.
- Rheoli disgwyliadau'n well. Mae tagfeydd ar adegau prysur yn dderbyniol, a dylai ymwneud ag ymwybyddiaeth nid buddsoddi er mwyn datrys
- Cofiwch mai bwriad gwreiddiol y draffordd oedd fel llwybr amgen ar gyfer traffig trwodd gan osgoi tagfeydd lleol. Efallai ein bod wedi colli golwg ar yr egwyddor honno.

Atodiad A

Rhestr Cyfranogwyr

A1 Rhestr Cyfranogwyr

Defnyddwyr Bysiau DU (Cymru)	Margaret Everson
Campaign Against Levels Motorway	Brenda Calver
Cyngor Dinas Caerdydd	Peter Dawson
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru	Leighton Jenkins
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Dr S C Howard
Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Claudia Currie
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Bill Purvis (Cynllunio a Rheoli Corfforaethol)
Heddlu Gwent	Julian Knight
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent	David Calver
Sefydliad y Peirianwyr Sifil	Keith Jones
Grŵp Cyffordd 28	Tania Cummins
Grŵp Cyffordd 28	Lesley Evans
Grŵp Cyffordd 28	Kathy Matson
Grŵp Cyffordd 28	Alison Lewis
Grŵp Cyffordd 28	Gerry Hallett
Cyngor Sir Fynwy	Mark Youngman
Cyngor Sir Fynwy	Alan Browne
National Express	Mike Lambden
Grŵp Mynediad Casnewydd	Gwyn Kemp-Philp
Newport Unlimited	Gillian Otlet
Cymdeithas Cludiant Ffyrdd	Geoff Dunning
Cymdeithas Cludiant Ffyrdd	Simon Higgins
Cymdeithas Cludiant Ffyrdd	Nick Payne
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cangen De Cymru	Dr Roisin Willmott
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	James Byrne
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	Peter Jones
Grŵp Gweithredu Twannel Hafren	Colin James
Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA)	Nicola Davies
Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA)	Deborah Stux
Siambwr Fasnach De Cymru	Martyn Evans
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Steve Price
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Dewi Jones
Heddlu De Cymru	Yr Arolygydd Inspector Steve Davies
Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru	Elizabeth Haywood

Stagecoach, R&W Services Limited	Richard Davies
Sustrans	Gwyn Smith
Traffig Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru	Jo Scott – Rheolwr Perfformiad a Gwerthuso
Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau Cymru	Gordon Telling
Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru	Yr Athro Stuart Cole

Tîm Mesurau Gwella Coridor yr M4

Llywodraeth Cynulliad Cymru	Russell Bennett
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mark Dixon
Arup	Richard Sanders
Arup	Allan Pitt
Arup	Ian Amos
Catrin Ellis Associates, Facilitator	Catrin Ellis Jones, hwylusydd
Catrin Ellis Associates	Lynn Wetenhall
Catrin Ellis Associates	Helena Poldervaart

Atodiad B

Ffocws ystyriaethau
cyfranogwyr – Problemau,
Cyrcnodau a Nodau diffiniedig
Llywodraeth Cynulliad Cymru
mewn perthynas â Rhaglen
Mesurau Gwella Coridor yr M4
(Magwyr i Gas-bach)

B1 Ffocws ystyriaethau cyfranogwyr – Problemau, Cyrchnodau a Nodau diffiniedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (Magwyr i Gas-bach)

Yn dilyn cyflwyniad byr i Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, a chyd-destun ei datblygiad, cafwyd cyflwyniad am Nodau'r Rhaglen a'r modd yr aethpwyd ati i ddefnyddio proses WelTAG (proses arfarnu dechnegol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) i nodi problemau'n gysylltiedig â theithio ar hyd Coridor yr M4. Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried y problemau a nodwyd, ac i adrodd eu barnau yn ôl. Nesaf, cafwyd cyflwyniad ar y modd y gosodwyd cyrchnodau, er mwyn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r problemau a nodwyd. Fe wnaeth y cyfranogwyr yn eu tro gynnig sylwadau ar y cyrchnodau hyn. Yn olaf, ar ôl edrych ar y problemau a'r cyrchnodau yn fanwl, gofynnwyd i'r cyfranogwyr feddwl ychydig am y darlun mwy, ac ystyried nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

1. Prif broblemau'n ymwneud â Choridor yr M4 (Magwyr i Gas-bach)

Cymerwyd y deunydd hwn o'r adroddiad: 'Adendwm i Ganllaw Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad y Cyfnod Cynllunio, Drafft 1 Dogfen Weithio Mai 2009'.

Fe wnaeth proses WelTAG nodi problemau allweddol fel a ganlyn:

1. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 ar adegau pan fo tarfu dros dro (er enghraifft, yn dilyn damweiniau, problemau'n cael eu hachosi gan dywydd difrifol, neu yn ystod prif ddigwyddiadau).
2. Mae mwy o drafft yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur.
3. Rhagwelir y bydd lefelau traffig yn parhau i gynyddu, felly bydd problemau 1 a 2 yn gwaethygu dros gyfnod.
4. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad ar dwf economaidd (er enghraifft, wrth i gwmnïau cludo nwyddau weld mwy a mwy o oedi o ran dosbarthu, gallant benderfynu peidio â buddsoddi yn Ne Cymru).
5. Mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol helaeth ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau am gyfnodau hir ar lonydd a chyflymder, a bydd hyn yn cynyddu problemau tagfeydd.
6. Mae cerbydau nwyddau trwm yn ymdopi'n wael gyda thagfeydd am eu bod yn cymryd mwy o amser i ailgychwyn ar ôl iddynt stopio, ac mae hynny'n ychwanegu at y tagfeydd.

7. Mae'r traffig sy'n symud yn araf mewn tagfeydd ar y draffordd o amgylch Casnewydd yn ychwanegu at broblemau llygredd aer.
8. Mae symudiad y traffig yn stopio ac yn ailgychwyn ar yr M4 yn arwain at gynydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddirwyrstr.
9. Mae'r system drafnidiaeth ffordd a rheilffordd o fewn coridor yr M4 ac o'i amgylch dan berygl cynyddol o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol (er enghraifft, llifogydd).
10. Mae sŵn traffig o'r draffordd yn broblem i drigolion lleol.
11. Nid yw nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu porth gwell i mewn i Gymru yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4.
12. Mae'r system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd.
13. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU.
14. Mae'r problemau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar adegau, ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar deithio yn Ne Cymru.

2. Cyrchnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4

Cymerwyd y deunydd hwn o'r adroddiad: 'Magwyr i Gas-bach. Adendwm i Ganllaw Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad y Cyfnod Cynllunio, Drafft 1 Dogfen Weithio Mai 2009'. Mae'r 'cyrchnodau' (gelwir yn ffurfiol yn 'amcanion cynllunio trafndiaeth') yn amlinellu'r math o ganlyniadau y dylai rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 geisio'u cyflawni.

1. Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru.
2. Gwella'r cysylltiadau trafndiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar y rhwydwaith trafndiaeth rhyngwladol.
3. Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafndiaeth a dulliau trafndiaeth eraill ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd.
4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.
5. Gwneud amserau siwrneiau ar hyd coridor yr M4 yn fwy dibynadwy.
6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafndiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach.
7. Ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau allweddol, yn ogystal â chanolfannau preswyl a chanolfannau masnachol.
8. Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.
9. Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd.

10. Lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel, o draffig yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.
11. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilomedrau cerbyd a/neu bobl.
12. Gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4.

3. Nodau cyffredinol rhaglen Tîm Gwella Coridor yr M4 2011 - 2020

Fel rhan o strategaeth drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, mae rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn canolbwyntio ar yr M4 a'r ardal uniongyrchol o'i chwmpas, a elwir yn goridor yr M4. Mae'r rhaglen yn edrych ar sut i wella gallu'r coridor i ymdopi â lefelau teithio presennol mewn modd effeithlon, a galluogi gwneud mwy o siwrneiau nag ar hyn o bryd.

Mae 3 nod cyffredinol:

Cymdeithasol: ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden [a manau gweithio, ar y ffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio....

Economaidd: i gefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru

Amgylcheddol: i atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwysu yn eu herbyn.

Atodiad C

Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

C1 Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

I gyd-fynd â'r gwahoddiad i gyfranogi yn y gweithdy, anfonwyd papur gwybodaeth byr at gyfranogwyr -"Nodyn Gwybodaeth Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4". Anfonwyd dogfen hwy at y cyfranogwyr a gadarnhaodd y byddent yn mynychu - "Papur Gwybodaeth Gweithdy Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4" a oedd yn disgrifio Nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 a pham yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am gysylltu â rhanddeiliaid ar yr adeg hon, yn ogystal â chyflwyno rhywfaint o'r sail dystiolaeth yn disgrifio rhai o'r problemau'n gysylltiedig â theithio yn yr Ardal hon o Goridor yr M4. Gellir lawrlwytho'r rhain o Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth.